FFURFLEN RHW22

# HYSBYSIAD Y LANDLORD O DERFYNU: CONTRACT SAFONOL CYFNOD PENODOL O FEWN ATODLEN 9B I DDEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, o dan adran 186(1) o'r Ddeddf honno fod rhaid iddo ildio meddiant o'r annedd ar ddyddiad penodedig.*

| **Rhan A: Landlord** |
|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: |

| **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|
| Enw(au): |

| **Rhan C: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan D: Hysbysiad i Ildio Meddiant** |
|---|
| Yn unol ag adran 186 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, mae'r landlord yn rhoi hysbysiad i chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, fod rhaid i chi ildio meddiant o'r annedd uchod ar [*dyddiad*] …………………………<br><br>Os nad ydych chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, yn ildio meddiant o'r annedd ar y dyddiad a bennir uchod, caiff y landlord wneud hawliad meddiant i'r llys.<br><br>Rhaid rhoi'r hysbysiad hwn cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract ar ei gyfer, neu ar y diwrnod olaf hwnnw.<br><br>*Sylwer: Ni chaiff y dyddiad penodedig fod cyn diwrnod olaf y cyfnod y gwnaed y contract meddiannaeth ar ei gyfer, neu lai na dau fis ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad hwn i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.* |

| **Rhan E: Llofnod** | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br><br>…………………………… | Dyddiad:<br><br>…………………………… |

**Canllawiau i ddeiliaid contract**

Yr hysbysiad hwn yw'r cam cyntaf sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant o'r annedd a nodir yn Rhan C. Dylech ei ddarllen yn ofalus iawn. Os nad ydych yn ildio meddiant erbyn y dyddiad a roddir yn Rhan D, caiff eich landlord wneud cais i'r llys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi ildio meddiant.

Os oes gennych unrhyw amheuon neu os oes arnoch angen cyngor ynghylch unrhyw agwedd ar yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch landlord yn y lle cyntaf. Gall llawer o broblemau gael eu datrys yn gyflym drwy eu codi'n syth. Os na allwch ddod i gytundeb â'ch landlord, efallai y byddwch am gysylltu ag asiantaeth gynghori (megis Cyngor ar Bopeth Cymru neu Shelter Cymru) neu gynghorwyr cyfreithiol annibynnol. Os ydych yn credu eich bod yn wynebu'r risg o fod yn ddigartref o ganlyniad i gael yr hysbysiad hwn, dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol i gael cymorth.

**Cyfyngiadau ar roi'r hysbysiad hwn**

Torri rhwymedigaethau statudol

Yn unol ag adran 186A o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ar adeg pan fo unrhyw rwymedigaethau statudol a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno wedi eu torri:

*1. Methu â darparu datganiad ysgrifenedig;*
*2. Cyfyngiad o chwe mis yn dilyn methu â darparu datganiad ysgrifenedig o fewn y cyfnod a bennir yn adran 31 (o'r Ddeddf honno);*
*3. Methu â darparu gwybodaeth;*
*3A. Methu â darparu tystysgrif perfformiad ynni ddilys;*
*4. Torri gofynion sicrwydd a blaendal;*
*5. Taliadau gwaharddedig a blaendaliadau cadw o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019;*
*5A. Methu â sicrhau bod larymau mwg a larymau carbon monocsid sy'n gweithio wedi eu gosod;*
*5B. Methu â chyflenwi adroddiad ar gyflwr trydanol etc.;*
*5C. Methu â darparu adroddiad ar ddiogelwch nwy i ddeiliad y contract.*

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn oni chydymffurfiwyd â gofynion adran 44 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Yn unol ag adran 75 o Ddeddf Tai 2004, ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn mewn perthynas â thŷ amlfeddiannaeth sydd heb drwydded yn unol â'r Ddeddf honno.

Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Ni chaniateir rhoi'r hysbysiad hwn ond i ddeiliaid contract safonol cyfnod penodol sydd o fewn Atodlen 9B i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016:

*1. Tenantiaethau a thrwyddedau sy'n gontractau meddiannaeth oherwydd hysbysiad a roddir o dan Ran 2 o Atodlen 2 (o'r Ddeddf honno);*
*2. Llety â chymorth;*
*3. Llety i geiswyr lloches, etc.;*
*4. Llety i bersonau digartref;*
*5. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd;*
*6. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: yr heddlu;*
*7. Meddiannaeth yn rhinwedd swydd: y gwasanaethau tân ac achub;*
*8. Llety dros dro: tir sydd wedi ei gaffael ar gyfer datblygu;*
*9. Llety dros dro: trefniadau tymor byr;*
*10. Llety dros dro: llety yn ystod gwaith.*